

MENTER CAERDYDD

“HYRWYDDO AC EHANGU’R DEFNYDD O’R GYMRAEG YNG NGHAERDYDD”

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

ANNUAL REPORT



Gair gan y Cadeirydd –Sian Edwards Poole

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar ran Menter Caerdydd ar gyfer flwyddyn 2024–25. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn llawn gweithgarwch, cydweithio a llwyddiannau, ac rwy'n falch iawn o rannu'r prif uchafbwyntiau gyda chi.

Yn gyntaf, hoffwn fynegi fy niolch diffuant i Jo Adams, a fu'n Gadairydd am nifer o flynyddoedd cyn i mi gymryd yr awenau eleni. Bu arweiniad Jo yn hanfodol wrth lywio'r sefydliad drwy gyfnodau heriol a chyffrous, gan sicrhau bod Menter Caerdydd yn parhau i dyfu ac i gryfhau ei rôl yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn y brifddinas. Mae ei hymroddiad, ei gweledigaeth a'i gwaith caled wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol, ac rydym oll yn ddiolchgar am ei chyfraniad arbennig.

Hoffwn hefyd estyn diolch cynnes i'n staff arbennig a'n partneriaid niferus sydd wedi cefnogi'r sefydliad yn ystod y flwyddyn. Heb eu cydweithrediad, eu cefnogaeth ariannol a'u hymrwymiad i'n nodau, ni fyddai'r prosiectau a'r digwyddiadau rydym yn eu trefnu yn bosibl. Mae'r berthynas agos rhwng Menter Caerdydd a'n partneriaid yn dyst i'r ymrwymiad cyffredin i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, bob dydd, ym mhob rhan o'r gymuned.

Wrth edrych ymlaen, mae gennym uchelgeisiau clir ar gyfer y flwyddyn nesaf: parhau i ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, datblygu prosiectau newydd sy'n ysbrydoli pobl ifanc, a chryfhau ein presenoldeb mewn cymunedau amrywiol ar draws Caerdydd. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar gydweithio, ac rydym yn hyderus y byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma. Diolch i bawb sy'n rhan o'r daith hon gyda ni. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau dyfodol disglair i'r Gymraeg yng Nghaerdydd.



RHAGAIR Y PRIF WEITHREDWR – HEULYN REES

Bu 2024-25 yn flwyddyn eithriadol o brysur i Fenter Caerdydd, gyda pharhad o'n darpariaeth hanesyddol megis cynlluniau gofal, cynlluniau chwarae, gweithgareddau i oedolion, rhaglenni chwaraeon a diwylliannol, ynghyd â'n gŵyl fawr, Tafwyl. Yn ystod y flwyddyn ymgysylltwyd gyda dros 75,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth, ac rydym yn gobeithio fod ein gwaith wedi parhau i fod yn fodd i filoedd o bobl ymgysylltu gyda'r Gymraeg yn y ddinas mewn modd ystyrlon a gwerthfawr.

Un o brif nodweddion Menter Caerdydd yw'r parodrwydd i gydweithio gydag eraill er lles y Gymraeg, ac unwaith eto bu'r flwyddyn yn llawn o bartneriaethau cadarnhaol – cefnogi sefydliadau, grymuso cymunedau, hyrwyddo gweithgareddau newydd a chyfrannu'n helaeth i waith ar y cyd gyda Cyngor Caerdydd, Cwlwm Busnes Caerdydd a Dysgu Cymraeg Caerdydd.

O ran datblygiadau newydd, bu Tafwyl ym Mharc Bute yn llwyddiant ysgubol, gan ehangu'r arlwy a denu cynulleidfau ehangach nag erioed o'r blaen. Roedd y lleoliad mwy yn cynnig cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid newydd a chynyddu effaith yr ŵyl ar fywyd diwylliannol y ddinas.

Yn ogystal, sefydlwyd prosiectau newydd gyda gwasanaethau addysg a chymunedol, gan gynnwys rhaglenni i gefnogi dysgwyr Cymraeg newydd a chreu cyfleoedd i oedolion ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y sylfeini hyn yn y flwyddyn i ddod.

Cyn cloi, hoffwn ddiolch yn fawr i'n staff am eu hymroddiad arbennig wrth hyrwyddo'r Gymraeg yn y brifddinas, ac i'n Cyfarwyddwyr am eu cyngor a'u cefnogaeth barhaus. Mae'n fraint arwain sefydliad sy'n parhau i dyfu ac i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghaerdydd trwy gyfrwng y Gymraeg.



PRIF WASANAETHAU MENTER CAERDYDD

TEULU

PLANT

POBL IFANC

OEDOLION
(gan gynnwys dysgwyr)

TAFWYL

CAERDYDD
DDWYIEITHOG

Rhai o ddatblygiadau newydd 2024-25

- Cydlynu cerddoriaeth hanner marathon Caerdydd
- Ehangu Tafwyl
- Ehangu darpariaeth addysg oedolion i gynnwys cyrsiau achredig
- Cydlynu ymgyrch Shwmae Sumae yn genedlaethol
- Adnewyddu statws Marc Elusen dibynadwy
- Sefydlu darpariaeth i oedolion ag anghenion ychwanegol



**MARC ELUSEN
DDIBYNADWY**

TRUSTED CHARITY MARK

**LEFEL
LEVEL 1**

NCVO

Plant a Phobl Ifanc

Mae'r ddarpariaeth wedi bod yn amrwyiol iawn yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cynlluniau gofal plant, sesiynau chwarae agored mewn lleoliadau amrywiol ar draws y ddinas, clybiau, gweithdai, digwyddiadau celfyddydol, sesiynau amser stori a grwpiau i rieni a phlant. Yn ogytal â hyn trefnwyd rhaglen amrwyiol o glybiau i blant/

GWEITHGAREDD

482

MYNYCHWYR:

17,520



Oedolion a'r Gymuned

Daeth grant y Loteri i ben yn 2024 ond parhawyd gyda'r ddarpariaeth gymunedol i oedolion. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys elfennau megis sgysiau ar-lein, teithiau cerdded, nosweithiau comedi, gweithdai, perfformiadau cerddorol, dosbarthiadau addysg oedolion, gigs a llawer mwy. Yn ogytal, darparwyd rhaglen amrywiol i ddysgwyr y ddinas yn aml mewn cydweithrediad gyda Dysgu Cymraeg Caerdydd. Gwelwyd twf sylweddol yn y ddarpariaeth addysg oedolion diolch i nawdd Gwasanaeth Addysg Oedolion Cyngor Caerdydd.



GWEITHGAREDD

206

MYNYCHWYR

3,059



Ieuenctid

Mae darpariaeth CFTi (Menter Caerdydd, Yr Urdd a'r Gwasanaeth Ieuenctid) wedi mynd o nerth i nerth. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar draws y ddinas yn ogytal â chynnydd mewn gweithgarwch ymhlith ysgolion ail iaith y ddinas. Mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys gigs, clybiau ieuenctid, gweithgareddau ar ôl ysgol, teithiau a ffair yrfaedd. Bellach mae dros 39 awr o ymgysylltu wyneb yn wyneb yn wythnosol.



GWEITHGAREDD

259

MYNYCHWYR

6,124

Tafwyl 2024

Yn dilyn symud i Barc Bute yn 2023 aethpwyd ati yn 2024 i ehangu ar y safle i greu pentref plant penodol.

NIFEROEDD TAFWYL 2024 NUMBERS

36,000 MYNYCHWYR | ATTENDEES

65 ARTISTIAID YN PERFFORMIO’N FYW |
LIVE PERFORMANCE ARTISTS


50 NODDWYR A PHARTNERIAID |
PARTNERS AND SPONSORS

22 YSGOL LEOL YN CYFRANNU |
LOCAL SCHOOLS TAKING PART

52 STAFF A GWIRFODDOLWYR |
STAFF AND VOLUNTEERS

54 ARLWYWYR A STONDINWYR |
STALLHOLDERS AND CATERERS

4 PROSIECT CYMUNEDOL |
COMMUNITY PROJECTS



Adborth | Feedback



"Mi oedd y pentre plant yn syniad gwych - mi fyddai stondin bwyd a diod fan hyn yn syniad gan bod rhieni yn gallu bod yn styc fan hyn am oriau! Llongyfarchiadau ar ŵyl lwyddianus tu hwnt eleni! Gwych!!"

"I thoroughly enjoyed bringing my family to Tafwyl this year and we look forward to next year's event. I noticed due to it being a free event it opened up the experiences of Welsh language, music and culture to many more people outside of the norm. This can surely be a hugely positive experience for the Welsh language."

"Roedd yr ardal dawel yn ffantastig o syniad ac ro'n i'n gwerthfawrogi gallu defnyddio fe i ddianc o'r bwrwm pan es i'n "dysregulated". Roedd yn help mawr i fi fod rhywle heb lot o bobl, a naeth cysgod y coed dawelu fy meddwl pan o'n i angen."

"Diolch o galon am eich holl waith caled - rydym yn andros o lwcus cael gŵyl mor wych yn ein prifddinas. Bendigedig gweld ein hiaith yn fyw ac yn iach yma. Hir oes i Tafwyl."

"Diolch o galon am ŵyl anhygoel unwaith eto eleni. Ni mor lwcus i gael gŵyl mor broffesiynol a gwych ar ein stepen drws."

"I loved it so much! Can't believe it's free! Excellent event, lovely atmosphere"

"Des i â fy merch 13 oed, ac fe aeth hi o gwmpas gyda'i ffrindiau. Arhoson ni am 5 awr. Daeth fy mab sy'n 18 yn y nos gyda'i ffrindiau e. Gŵyl i bobl o bob oedran!"


"Dylai fod gofod i fandiau werthu merch - albymau, crysau-t ac ati"

"Mae'r ffaith bod Tafwyl am ddim yn wych achos mae'n denu canran o bobl efallai na fyddai'n bwriadu dod - teuluoedd di Gymraeg er enghraifft. Roedd y lleoliad yn wych ac yn hygyrch iawn. Digonedd o ddewisiadau bwyd a system y bar yn effelthiol. Stondinau amrywiol a rhywbeth ar gael i bawb."

"Diolch Tafwyl! Mae rhywbeth unigryw arbennig iawn am yr ŵyl yma sydd yn gweithio i bob oed. Mae'n dangos Cymru ar ei ora i bawb sydd yn clywed amdano, mynychu neu awydd dod draw. Da iawn pawb sydd yn cadw'r cogs i gyd yn troi."

"Nice atmosphere and suits all ages, my boys loved it. Music and food no barrier at all, it get people together. The weather helped as well"

CYDNABYDDIAETH I WAITH MENTER CAERDYDD



Taith i'r Deml Heddwch Mai 2025:

'Diolch am drefnu'r ymweliad. Roedd mor ddiddorol a'r tywysydd yn groesawgar a gwybodus.'

Tai Chi

'Rwy' wrth fy modd gyda'r sesiynau. Maen nhw'n gwneud cymaint o les ac mae Avril yn hyfryd.'

Dysgwyr lefel Mynediad sy'n mynychu grŵp sgwrsio Rhiwbeina:

Chi wedi creu rhywbeth special yma. Ni'n mwynhau bod mewn grwpiau bach gyda'r volunteers. Diolch am y cyfle i ymarfer siarad Cymraeg.

ABI'S AMSER STORI IS ABSOLUTELY BRILLIANT. SHE IS UNBELIEVABLY GREAT WITH THE CHILDREN. WE LOOK FORWARD TO THE SESSION EVERY WEEK AND MY SON HAS PICKED UP SO MUCH WELSH THROUGH THE SONGS AND STORIES. AS A NON WELSH SPEAKING FAMILY, BOTH OF OUR CHILDREN NOW ATTEND WELSH SCHOOL AND THE WELSH THEY PICKED UP AT ABI'S SESSIONS HAS DEFINITELY HELPED THEIR UNDERSTANDING AND CONFIDENCE. WE CAN'T RATE IT HIGHLY ENOUGH. DIOLCH!



**AL LEWIS
A'R BAND**

TARAN

**28. 2. 2025
@ 20:00**

**GIG LANSIAD
TAFWYL
2025**

Tocynnau | Tickets

£12

www.tafwyl.cymru



@ Canolfan Cymry Llundain
165 Gray's Inn Road
Grays Inn, WC1X 8UE





CLWB OEDOLION

AR YFFER UNIGOLION AG
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ydych chi, neu eich cwmni,
yn gallu cynnig **nawdd**?

Mae **Clwb Oedolion Menter Caerdydd**
yn **chwilio am noddwyr!**

Helpwch sicrhau dyfodol y gwasanaeth
gwerthfawr yma!

Clwb Oedolion
Bob Dydd Mercher
17:00 - 18:30
FESTRI CAPEL SALEM
MARKET RD, CAERDYDD
CF5 1QE

I gefnogi cysylltwch gyda:
sian@mentercaerdydd.cymru

Rhif Eilusen / Charity Number: 1098605
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565

CLWB SGWRSIO CYMRAEG (MYNEDIAD)

WELSH CONVERSATION CLUB (ENTRY)

wedi'i anelu at y rhai sy'n llai hyderus eu Cymraeg.
Cyfle i ymarfer gyda ffrindiau!

aimed at less confident speakers.
Come and practise your Welsh in a relaxed environment!

Bob yn ail ddydd Gwener / Every other Friday:
10:30-11:30, Hyb Rhiwbina Hub, CF14 6EH

21/02/25
07/03/25 + 21/03/25
04/04/25

rachel@mentercaerdydd.cymru
mentercaerdydd.cymru



**Diolch i'n holl bartneriaid, noddwyr,
cefnogwyr a defnyddwyr gwasanaeth!**



mentercaerdydd.cymru

Rhif elusen:1098606 Rhif Cwmni: 4576565